O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2461 (Cy. 269)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *21 Medi 2012*

Yn dod i rym *1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r